




Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adran TGCh
# Swyddog Diogelu Data
## Pecyn Gwybodaeth Recriwtio




# Croeso gan Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, byddant yn tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys, ac er bod hyn yn wir, mae eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lawer ehangach na'r delweddau traddodiadol hyn.

Yn ogystal â Diffoddwyr Tân, cyflogir pobl mewn amrywiaeth o rolau heriol ac amrywiol, ac mae'r gwaith hanfodol a wneir tu ôl i'r llen yr un mor hanfodol i sicrhau fod Gogledd Cymru'n ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

Mae technoleg yn rhan hanfodol o'r modd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cefnogi ei weithgareddau dyddiol; boed yn symud ein criwiau o Ddiffoddwyr Tân i ddigwyddiadau gweithredol, gan sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth risg-gritigol, neu gefnogi systemau sy'n rheoli ein hadnoddau, gan gynnwys systemau cefn swyddfa fel y Gyflogres a Chyllid, i systemau rheng flaen fel Terfynellau Data Symudol ar ein peiriannau tân – mae technoleg yn cyffwrdd â phob rhan o'n Gwasanaeth.

Mae ein gwerthoedd craidd yn ymwneud ag ymdrechu tuag at ragoriaeth, gwasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym am i bobl sy'n rhannu'r un gwerthoedd i ymuno â'n tîm er mwyn ein helpu i barhau i wneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw ynddo, i weithio ynddo ac i ymweld ag ef.




# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o'n gwaith mewn rol gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.

# Gogledd Cymru: Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymry'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.



# Y Rôl


Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae pawb yn cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i helpu i warchod ein cymunedau a'r amgylchedd naturiol. Mae technoleg yn elfen hollbwysig o sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno ei weithgareddau o ddydd i ddydd.

Fel y Swyddog Diogelu Data, byddwch yn arwain yr ymdrechion i sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydymffurfio â chyfreithiau preifatrwydd a diogelu data. Byddwch yn gosod y safonau Llywodraethu Gwybodaeth, yn darparu cefnogaeth ar sail preifatrwydd trwy ddylunio bwriadol, ac yn goruchwylio'r gwaith o drin data personol a chyhoeddus yn ddiogel. Drwy gydweithio â thimau allweddol, byddwch yn lliniaru risgiau ac yn hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd, gan sicrhau ymwybyddiaeth staff o arfer gorau a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Bydd eich arbenigedd yn hanfodol wrth lunio dull Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o ymdrin â diogelwch gwybodaeth a defnyddio data mewn ffordd foesegol.

Bydd y prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn cynnwys: -

Hysbysu a chynghori Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) a'i gyflogeion am eu rhwymedigaethau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol, a rhai sy'n cael eu datblygu, ar gyfer diogelu data gan gynnwys rhyddid gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth. Chi fydd y prif gyswllt ar gyfer yr awdurdod sy'n goruchwylio deddfwriaeth diogelu data (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ICO) ac ar gyfer unigolion y mae eu data'n cael ei brosesu (staff, defnyddwyr gwasanaeth ac ati). Byddwch yn datblygu ac yn cynnal y gwaith llywodraethu ar Asedau Gwybodaeth y Gwasanaeth.  Bod yn berchennog ar y gofrestr o asedau gwybodaeth a deall llif yr wybodaeth rhwng yr asedau. Yr ymgeisydd llwyddiannus fydd y swyddog cyfrifol ar gyfer pob cais Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Sicrhau bod ymatebion yn cael eu darparu o fewn y cyfnod amser statudol, delio ag unrhyw gŵynion sy'n gysylltiedig â Rhyddid Gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng yr awdurdod goruchwylio a'r Gwasanaeth os bydd unrhyw apeliadau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Sylwch fod y swydd hon yn destun Gwiriad DBS safonol a geirdaon boddhaol. I gael manylion pellach ynglŷn â'r rôl, edrychwch ar y pecyn gwybodaeth.



# Beth allwn gynnig i chi

## Tâl

Gradd GTAGC 09

Cyflog Sylfaenol: Dechrau ar £40,221 y flwyddyn, gan godi i £43,421 y flwyddyn

## Oriau Gwaith

Mae'r sefyllfa hon yn seiliedig ar weithio 37 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## Lleoliad Gwaith

Mae'r tîm wedi'i leoli yng Nghonwy, ond mae natur y rôl yn golygu y gall fod angen i chi weithio mewn gwahanol leoliadau gwasanaeth tân, felly efallai y bydd angen teithio yn un o gerbydau'r Gwasanaeth i leoliadau eraill sy'n perthyn i'r Gwasanaeth o bryd i'w gilydd. Mae cael trwydded yrru gyfredol a llawn yn y DU yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Rydym yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd ac rydym yn gwneud ein gorau i gefnogi staff i gadw cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd yn y cartref. Mae gennym bolisi gweithio ystwyth i hwyluso gweithio rhithiol a gweithio gartref lle bo'n ymarferol ar gyfer y rôl. Gellir trafod hyn ymhellach yn ystod cyfweliad.

## Manteision Cyflogaeth

- Hawl am Wyliau Blynyddol hael, yn cychwyn ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal a gwyliau cenedlaethol
- Cynllun amser Fflecsi sy'n caniatáu i staff weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i gyfraniad gweithwyr o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, yn cynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapyddion corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Ystod o fuddion eraill megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad i bris gostyngol mewn cannoedd o siopau, hamdden a darparwyr gwasanaethau.



# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Swyddog Diogelu Data |
| **Adran** | Adran TGCh |
| **Yn Atebol i** | Pennaeth TGCh |
| **Lleoliad** | Conwy |

## Overall Job Purpose

Bod yn swyddog arweiniol sy'n darparu cyngor, arweiniad a chymorth proffesiynol mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth gan gynnwys diogelu data i sicrhau ymwybyddiaeth staff o arfer gorau a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Ymgymryd â rôl y Swyddog Diogelu Data, gan gymryd cyfrifoldeb am gydymffurfiad y Gwasanaeth â Rheoliadau Diogelu Data 2018.

## Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Rhoi gwybod a chynghori Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) a'i gyflogeion am eu rhwymedigaethau sy'n deillio o ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol a datblygol mewn perthynas â diogelu data gan gynnwys rhyddid gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth.
2. Datblygu, gweithredu a monitro polisïau a gweithdrefnau perthnasol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol
3. Sicrhau bod y Ddesg Gymorth ar gael trwy Microsoft Teams rai nosweithiau i gefnogi staff ar-alwad. Dylunio a chyflwyno hyfforddiant i staff mewn perthynas â gweithgareddau diogelu data gan gynnwys rhannu data ag asiantaethau eraill, cytundebau prosesu data a chwblhau asesiadau effaith diogelu data
4. Bod yn brif gyswllt i'r awdurdod goruchwylio deddfwriaeth diogelu data (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) ac ar gyfer unigolion y mae eu data yn cael ei brosesu (staff, defnyddwyr gwasanaeth ac ati).
5. Datblygu a chynnal llywodraethu Asedau Gwybodaeth y Gwasanaeth. Bod yn berchen ar y gofrestr asedau gwybodaeth a deall llif y wybodaeth rhwng yr asedau. Atebol am risgiau gwybodaeth/data sgorio risg ac adrodd yn rhagweithiol risgiau cynyddol i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth GTAGC (UBRG)
6. Gweithredu fel rhanddeiliad allweddol ar gyfer unrhyw archwiliadau ac adolygiadau cydymffurfio sy'n gysylltiedig â diogelu data, a gwblheir yn fewnol ac yn allanol.
7. Darparu cyngor ac arweiniad arbenigol i'r Aelodau, Prif Swyddog, Rheolwyr, Staff a'r UBRG mewn perthynas â materion llywodraethu gwybodaeth a diogelu data gan gynnwys perchnogaeth data, prosiectau, rhaglenni, caffael a threfniadau cydweithredu/rhannu data.
8. Sefydlu protocolau adrodd mewnol ar gyfer toriadau diogelwch data a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.
9. Cysylltu ag Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth GTAGC (UBRG) i benderfynu ar gamau priodol os bydd digwyddiadau diogelwch gwybodaeth niweidiol posibl, gan sicrhau hysbysiad i'r Pwnc(pynciau) Data a/neu'r Awdurdod Goruchwylio, os oes angen o fewn terfynau amser penodedig.
10. Sefydlu a chynnal perthnasoedd cryf â swyddogion Diogelu Data partneriaid eraill a gweithwyr proffesiynol Llywodraethu Gwybodaeth i annog rhannu gwybodaeth, arfer gorau a

threfniadau rhannu gwybodaeth dibynadwy.  Cymryd rhan mewn grwpiau rhanbarthol a chenedlaethol fel y bo'n briodol.

11. Cefnogi adrannau mewn perthynas ag unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth a sefydlwyd fel rhan o gydymffurfiaeth GTAGC â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI).
12. Bod yn swyddog cyfrifol ar gyfer pob cais Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.  Sicrhau bod ymatebion yn cael eu darparu o fewn yr amserlenni statudol, ymdrin ag unrhyw gŵynion sy'n ymwneud â Rhyddid Gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng yr awdurdod goruchwylio a'r Gwasanaeth os bydd unrhyw apeliadau  i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
13. Rheoli pob cais gwrthrych am wybodaeth a dderbynnir gan y Gwasanaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.
14. Llunio, monitro ac adolygu holl bolisïau'r Gwasanaeth sy'n ymwneud â diogelu data, rhyddid gwybodaeth, ceisiadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, a defnydd o CCTV.
15. Sicrhau bod y Gweinyddwr Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i hyfforddi'n ddigonol i ddarparu cymorth gweinyddol yn ôl yr angen.
16. Gweithio gyda thimau TGCh i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei diogelu'n briodol rhag mynediad, datgelu, newid a dinistrio heb awdurdod.
17. Datblygu a chynnal polisïau cadw data, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a safonau sefydliadol wrth hwyluso rheoli data effeithlon ac arferion storio diogel.  Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ddigidol, magnetig a phapur.
18. Adolygu dogfennau cytundebol a dogfennau eraill y Gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y ddeddfwriaeth Diogelu Data ac yn gyfrifol am ysgrifennu ac adolygu Hysbysiadau Preifatrwydd y Gwasanaeth.

## Cyfrifoldeb Goruchwylio

Cyfrifoldeb anuniongyrchol am Gynorthwyydd Cefnogi Busnes rhan-amser - Llywodraethu Gwybodaeth a fydd yn cynnwys dyrannu tasgau bob dydd, sicrhau eu gwaith a darparu datblygiad perthnasol (Rheolwr llinell uniongyrchol y rôl hon trwy'r Arweinydd Tîm Cefnogi Busnes).

## Cyfrifoldeb Ariannol

Rhannu cyfrifoldeb am reoli cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a chostau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau Diogelu Data a llywodraethu gwybodaeth

Rheoli a bod yn gyfrifol am unrhyw gyllideb prosiect y cytunwyd arni ar gyfer datblygiadau newydd neu welliannau yn ymwneud â'r maes cyfrifoldeb.

Awdurdod Archebion Prynu a chymeradwyo hyd at lefelau y cytunwyd arnynt.

## Cysylltiadau y tu Allan i'w Adran ei Hun

Pob adran yn GTAGC.

Gwasanaethau Tân ac Achub Eraill (a chyrff sector cyhoeddus)

Comisiynydd Biometreg a Chamerâu Gwyliadwriaeth (CCTV).

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (FOI, EIR, UK GDPR).

Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC)

Uwch Berchennog Risgiau Gwybodaeth GTAGC.

Unrhyw asiantaethau allanol eraill yn ôl yr angen er mwyn cyflawni dyletswyddau.

## Gofynion Iaith

Cymraeg Lefel 2 – Siarad a Gwrando (cyflawni hyn o fewn y cyfnod prawf). Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg - Lefel 2 - yn gofyn eich bod yn gallu: Deall hanfod sgyrsiau yn y gwaith. Ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion syml. Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml.

## Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Gwiriad DBS safonol.

## Hyfforddiant Gorfodol

Cwrs Hyfforddi SPoC Achrededig y Swyddfa Gartref

## Arall

Y gallu i wneud cyfuniad o weithio ystwyth fel y cytunir gyda'r rheolwr llinell



# Gofynion Person

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau / Gallu / Profiad** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Addysg hyd at radd neu gymhwyster cyfwerth mewn Cyfraith Diogelu Data, Llywodraethu Gwybodaeth, neu bwnc cysylltiedig. |
| | Gwybodaeth arbenigol ac ymarferol am GDPR, deddfwriaeth gysylltiedig, a chodau ymarfer yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth. |
| | Profiad o gynnal ymchwiliadau yn ymwneud â thorri diogelwch data gan gydnabod ac ystyried polisïau AD perthnasol. |
| | Gwybodaeth ymarferol am gydymffurfiaeth â Diogelu Data, gan gynnwys y goblygiadau ac arfer gorau. |
| | Profiad o weithio gyda Diogelu Data yn y Sector Cyhoeddus a/neu brofiad o weithio gyda materion cyfreithiol cymhleth. |
| | Profiad o ddatblygu, gweithredu a chynnal polisïau a gweithdrefnau. |
| | Profiad, wedi'i gefnogi gan hyfforddiant y Swyddfa Gartref mewn perthynas â rheoli neu ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ceisiadau gwrthrych am wybodaeth neu geisiadau EIR ac ymholiadau am ddiogelu data, gan gynnwys cymhwyso a chyfiawnhau eithriadau i geisiadau o'r fath. |
| | Profiad proffesiynol blaenorol o weithio gyda llywodraethu gwybodaeth a diogelu data gan gynnwys |
| | Profiad o gysylltu / cyfathrebu â sefydliadau trydydd parti a'r gallu i gynrychioli'r Gwasanaeth wrth ddelio â sefydliadau allanol megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| | Profiad o weithio gyda Diogelu Data yn y sector cyhoeddus neu gyfreithiol. |
| | Profiad o gyflwyno hyfforddiant i staff. |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Sgiliau rhyngbersonol da gan gynnwys y gallu i feithrin perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid a chynnal ymagwedd gytbwys |
| | Sgiliau datrys problemau dadansoddol gyda'r gallu i ddatblygu datrysiadau |
| | Y gallu i gyflwyno a darparu hyfforddiant i staff ar bob lefel mewn perthynas â GDPR, Rhyddid Gwybodaeth a phynciau perthnasol eraill |
| | Y gallu i egluro cysyniadau cymhleth i wahanol grwpiau proffesiynol |
| | Y gallu i ddehongli deddfwriaeth a chodau ymarfer. |
| | Y gallu i adolygu newidiadau mewn deddfwriaeth a chanllawiau a drafftio/diweddaru polisïau a gweithdrefnau/canllawiau. |
| | Y gallu i ymchwilio i ddigwyddiadau (e.e. achosion o dorri diogelwch data) a gwneud argymhellion ar gamau priodol i'w cymryd |
| | Y gallu i gynghori staff ar bob lefel ar brosesau i ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth, ceisiadau dileu a datganiadau preifatrwydd. |
| | Yn hunangymhellol ac yn gallu blaenoriaethu llwythi gwaith i gyrraedd terfynau amser |
| | Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar da. |
| | Meddu ar drwydded yrru lawn ddilys y DU gyda'r gallu i yrru |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| | Dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) |

* Bydd tystiolaeth o gymwysterau yn cael cais a'u gwirio cyn cadarnhau apwyntiad

**Sylwer: Er mwyn cael eich rhoi ar restr fer y swydd hon, bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.**

# Sgiliau'r Gymraeg

## Lefel 2

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Mae gofyniad Cymraeg y swydd hon yn lefel 2 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

| Maes Sgil | Gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | ▪ Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith.<br>▪ Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion.<br>▪ Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd.<br>▪ Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio. |
| **Darllen** | ▪ Gallu deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a gwybodaeth nad yw'n rheolaidd ar faterion cyfarwydd sy'n ymwneud â maes gwaith eich hun e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni |

Bydd asesiad Cymraeg byr yn cael ei gynnal ar ddechrau cyfnod y swydd a bydd ymgeiswyr nad ydynt eisoes yn siarad Cymraeg i lefel 2 yn cael cyfnod o 12 mis o'u penodi i ennill hyn.

Rydyn ni'n cydnabod bod dysgu iaith yn cymryd amser ac ymrwymiad a bod y gofyniad hwn yn ychwanegol at ddysgu rôl newydd a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gefnogi i gyflawni'r lefel gofynnol.



# Sut i Ymgeisio

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar [wefan y Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru](#) ac fe ddylid dychwelyd y Ffurflenni Cais ar e-bost i recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy gysylltu a'r Tim Recriwtio ar 01745 535281.

Peidiwch â chyflwyno'ch CV gyda'r Ffurflen Gais, gan mai dim ond yr wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei defnyddio ar y cam llunio rhestr fer.

Wrth gwblhau eich cais, ymgyfarwyddwch â'r disgrifiad swydd a manyleb y person yn y pecyn gwybodaeth hwn fel eich bod yn deall y cymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Mae p'un a fyddwch chi'n cael eich rhoi ar restr fer am gyfweliad ai peidio yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwch yn eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol ar eich cyfer.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais cyn y dyddiad cau gan na fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os oes ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recruitment@northwalesfire.gov.wales neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Steve Morris, Pennaeth TGCh ar 01745 352774

| Dyddiad cau | 12:00 ar 23/10/2024 |
|---|---|

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service